O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 7 (Cy. 3)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr A48(M) (Llaneirwg, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

Gwnaed	*4 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*10 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr A48(M) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno ac oherwydd tebygolrwydd perygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr A48(M) (Llaneirwg, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 10 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol.

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of* the *motorway")* yw'r darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drosbont Tyla Lane hyd at bwynt lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd yr A48/Eastern Avenue, lle y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 29A yr A48/Eastern Avenue yn uno â'r brif gerbytffordd wrth Laneirwg yn Ninas a Sir Caerdydd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.